

Categoreiddio

Cyngor a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd
Gwladol

Cyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol: 29 Chwefror 2024
Cyhoeddwyd: 25 Mawrth 2024

Cynnwys

Adran

Trosolwg.....	3
---------------	---

Trosolwg

Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwyllo sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu sy'n cael ei ddarlledu, radio, a gwasanaethau ar-lein. Cawsom ein penodi yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf) ym mis Hydref 2023.

Rôl categoreiddio

Rhaid i'r holl wasanaethau ar-lein o fewn cwmpas y drefn Diogelwch Ar-lein ddiogelu holl ddefnyddwyr y DU rhag cynnwys anghyfreithlon a, lle bo hynny'n berthnasol, amddiffyn plant rhag niwed ar-lein. Hefyd, bydd cyfran fach o'r gwasanaethau hyn yn cael eu categoreiddio a'u dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth.

Bydd gofyn i'r gwasanaethau hyn sy'n cael eu categoreiddio gydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion ychwanegol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddod â lefel briodol o ddiogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i'r byd ar-lein, gan adlewyrchu natur gwasanaethau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys llunio adroddiadau tryloywder, gweithredu yn unol â thelerau gwasanaeth, cynnig offer i rymuso defnyddwyr, ac atal hysbysebu twyllodrus – yn dibynnu ar y categori y maent yn perthyn iddo:

Categoriâu →	Categori 1	Categori 2A	Categori 2B
Rhaid i wasanaethau wedi'u categoreiddio gydymffurfio â dyletswyddau ychwanegol sy'n ymwneud â'r isod:			
Adrodd am dryloywder	✓	✓	✓
Gofynion uwch o ran asesiadau risg a chadw cofnodion	✓	✓	
Telerau ychwanegol dyletswyddau gwasanaeth	✓		
Gwarchodaeth ar gyfer cynnwys newyddiadurol a chyhoeddwy'r newyddion, a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd	✓		
Darparu nodweddion grymuso defnyddwyr	✓		
Cynnig dewisiadau dilysu manylion adnabod defnyddiwr	✓		
Atal hysbysebu twyllodrus	✓	✓	
Datgelu gwybodaeth am ddefnydd plentyn sydd wedi marw o'r gwasanaeth	✓	✓	✓

Beth y gofynnwyd i ni ei wneud

O dan y Ddeddf, roedd yn rhaid i Ofcom gynnal ymchwil a darparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar amodau'r trothwy ar gyfer pob categori gwasanaeth, cyn pen chwe mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. **Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymchwil a wnaethom ac yn cadarnhau ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gategoreiddio, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.**

Sut y gwnaethom gynnal ein hymchwil

Roedd y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnal ymchwil ar amodau'r trothwy ar gyfer categorïau 1, 2A a 2B. Mae'r gofynion ar gyfer pob categori wedi'u nodi'n fanylach yng nghorff y ddogfen hon. Yn gyffredinol, roedd y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnal ymchwil ar gyfuniad o swyddogaethau gwasanaeth, niferoedd defnyddwyr, risg o niwed, ac unrhyw nodweddion eraill roedd Ofcom yn credu eu bod yn berthnasol.

Fe wnaethom gynnal ein hymchwil rhwng mis Mehefin 2023 a mis Ionawr 2024. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi [Cais Agored am Dystiolaeth](#) ym mis Gorffennaf 2023, gan wahodd mewnbwn gan randdeiliaid a oedd â diddordeb. Roedd ein hymchwil yn cynnwys cyfuniad o ddadansoddi gwybodaeth a gyflwynwyd i Ofcom yn dilyn y Cais am Dystiolaeth, gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, setiau data trydydd parti, ymchwil sydd eisoes yn bodoli gan Ofcom, ac ymchwil bwrpasol newydd gan Ofcom. Ein prif ffynonellau ymchwil oedd:

- **data ymwelwyr sy'n defnyddio gan Ipsos iris** – fe wnaethom ddadansoddi data Ipsos iris o fis Hydref 2023 ymlaen am ddefnyddwyr rhyngwyd y DU 15 oed a hŷn i lywio gofynion ymchwil ar niferoedd defnyddwyr y DU;
- **ymchwil bwrpasol ar swyddogaethau gwasanaethau ar-lein** – fe wnaethom gynnal ymchwil fewnol bwrpasol gan Ofcom ar swyddogaethau gwasanaethau ar-lein o fewn y cwmpas i helpu i lywio gofynion yr ymchwil ar swyddogaethau; ac
- **ymchwil bresennol Ofcom ar risgiau o niwed** – fe wnaethom ddefnyddio ymchwil a oedd eisoes yn bodoli, gan gynnwys ymchwil a gynhaliwyd neu a gomisiynwyd gan Ofcom yn flaenorol, i lywio gofynion ymchwil ar y risg o gynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant ar wasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr perthnasol.

Rydym yn nodi rhagor o fanylion am ein ffynonellau data a'n methodolegau yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, gan gynnwys nodi eu cyfyngiadau lle bo hynny'n berthnasol.

Ein cyngor a'r trothwyon a gynigir

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch lle dylid gosod trothwyon, ar sail yr ymchwil rydym wedi'i chynnal. Wrth gwblhau ein cyngor ar gategoreiddio, rydym wedi arfer ein crebwyll rheoleiddio gan ystyried ein dyletswyddau a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a'n swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Yr hyn rydym yn ei argymhell i'r Ysgrifennydd Gwladol – yn gryno

Dyma ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y trothwyon a gynigir:

Categori 1

Mae canfyddiadau ein hymchwil yn dangos mai nodweddion gwasanaeth sydd fwyaf perthnasol i gynnwys sy'n cael ei ledaenu'n hawdd, yn gyflym ac yn eang yw:

- systemau argymhell cynnwys, oherwydd bod gwasanaethau fel arfer yn dibynnu arnynt i ehangu cynnwys i set eang o ddefnyddwyr; ac
- y gallu i ddefnyddwyr anfon neu ail-rannu cynnwys, oherwydd bod hyn yn helpu defnyddwyr i rannu cynnwys yn syth gydag eraill.

Yn ein barn ni, mae'r ddwy nodwedd hyn yn gweithredu er mwyn lledaenu cynnwys yn haws, yn gyflym ac yn eang. Ar ben hynny, mae effeithiau'r nodweddion hyn yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy wrth i'r sylfaen defnyddwyr gynyddu a phan fydd y nodweddion hyn yn

gweithredu ar y cyd. Yn y bôn, po uchaf yw'r sylfaen defnyddwyr, y mwyaf o gynnwys sy'n debygol o gael ei rannu.

Am y rhesymau hyn, ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 1 dargedu gwasanaethau sy'n bodloni'r naill set ganlynol o amodau:

Amod 1:

- defnyddio system argymell cynnwys; **a**
- chael dros 34 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 50% o boblogaeth y DU.

Amod 2:

- caniatáu i ddefnyddwyr anfon neu ail-rannu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr; **a**
- defnyddio system argymell cynnwys; **a**
- chael dros 7 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 10% o boblogaeth y DU.

Categori 2A

Mae canfyddiadau ein hymchwil yn dangos bod y math o wasanaeth yn ffactor perthnasol o ran pa mor gyffredin yw cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae [asesiad risg drafft Ofcom ar gyfer niwed anghyfreithlon](#) yn adrodd bod gwasanaethau chwilio fertigol, hynny yw, gwasanaethau chwilio sydd ond yn canolbwyntio ar bwnc neu fath penodol o gynnwys, yn peri risg is o niwed o'i gymharu â gwasanaethau chwilio cyffredinol neu wasanaethau chwilio cyffredinol am i lawr, oherwydd eu swyddogaeth chwilio gyfyngedig. Rydym felly'n cynnig na ddylai trothwyon ar gyfer categori 2A gynnwys gwasanaethau chwilio fertigol.

Mae ein hymchwil yn dangos bod cynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu'n niweidiol i blant yn hygyrch ar draws amrywiaeth o wasanaethau chwilio. Mae hefyd yn rhesymol casglu po fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd, po fwyaf y bydd y cynnwys chwilio yn gallu ei gyrraedd.

Am y rhesymau hyn, ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 2A dargedu gwasanaethau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- yn wasanaeth chwilio ond nid yn wasanaeth chwilio fertigol; **a**
- chael dros 7 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan peiriant chwilio'r gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 10% o boblogaeth y DU.

Categori 2B

Roedd ein hymchwil – yn seiliedig yn bennaf ar ein [hasesiad risg drafft ar gyfer niwed anghyfreithlon](#) – yn ystyried pa swyddogaethau sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddsbarthu cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Rydym wedi dod i'r casgliad bod negeseua uniongyrchol yn arbennig o berthnasol, gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddiwr ddsbarthu cynnwys yn uniongyrchol i ddefnyddiwr arall, heb i ddefnyddwyr eraill allu gweld neu gael mynediad at y cynnwys hwn. Fe wnaethom ddiystyru swyddogaethau eraill a allai fod yn berthnasol.

Rydym o'r farn bod sylfaen fawr o ddefnyddwyr yn berthnasol i gategori 2B. Po fwyaf y mae gwasanaeth yn ei gyrraedd, y mwyaf yw'r risg a achosir gan gynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant. Y rheswm dros hyn yw y gallai mwy o ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon neu niweidiol neu gael eu targedu gan ddefnyddwyr maleisus. Gan ei bod yn bosibl i lawer o wasanaethau categori 1 hefyd ganiatáu negeseua uniongyrchol, rydym yn cynnig trothwy rhif defnyddiwr sy'n is nag ar gyfer categori 1. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod trothwyon categori 2B yn cynnwys nifer briodol o wasanaethau perthnasol – a phenodol.

Am y rhesymau hyn, ein cyngor yw y dylai trothwyon categori 2B dargeddu gwasanaethau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- caniatáu i ddefnyddwyr anfon negeseuon uniongyrchol; a
- chael dros 3 miliwn o ddefnyddwyr yn y DU yn rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth, sy'n cynrychioli tua 5% o boblogaeth y DU.

Beth sy'n digwydd nesaf

Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwn fel rhan o'r broses o benderfynu ar amodau trothwy categori 1, 2A a 2B sydd i'w gosod mewn is-ddeddfwriaeth. Ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei phasio, bydd Ofcom wedyn yn casglu gwybodaeth yn ôl yr angen, gan gynnwys o dan ein pwerau statudol i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth a gesglir am wasanaethau yn erbyn y trothwyon terfynol ac, yn unol â'r Ddeddf, yn llunio cofrestr a gyhoeddir o wasanaethau wedi'u categorreiddio, a rhestr a gyhoeddir o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y gofrestr a gyhoeddir o wasanaethau wedi'u categorreiddio yn pennu pa gwmnïau y bydd angen iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol. Gan dybio y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei chwblhau erbyn haf 2024, rydym yn disgwyl cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categorreiddio erbyn diwedd 2024. Ein nod yw cyhoeddi cynigion drafft ynghylch y dyletswyddau ychwanegol ar y gwasanaethau hyn ddechrau 2025. Dros amser, byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein cofrestr o wasanaethau wedi'u categorreiddio fel y bo'n briodol.

Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi Cais am Dystiolaeth am y dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categorreiddio. Rydym yn annog gwasanaethau sy'n credu y gallent gael eu categorreiddio yn y pen draw ar sail y cyngor hwn – ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb – i ddarllen ac ymateb i'n Cais am Dystiolaeth.

Mae ein [map tuag at reoleiddio](#) yn nodi ein cynlluniau ehangach diweddaraf ar gyfer gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein.